



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL

CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AMNEWID 2016 – 2031

FFURFLEN YMATEB: NEWIDIADAU I'R MATERION SY'N CODI

Hoffwn dderbyn eich sylwadau ar y Newidiadau i'r Materion sy'n Codi arfaethedig i'r Cynllun Datblygu Lleol Amnewid (CDLI) ac i'r dogfennau diwygiedig sy'n eu cefnogi (er enghraifft y Gwerthusiad Cynaliadwyaeth diwygiedig neu'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.) Mae'r newidiadau arfaethedig i'r CDLI Amnewid wedi'u nodi yn yr Atodlen Newidiadau i'r Materion sy'n Codi (MAC.)

Dylai'r ffurflen hon gael ei defnyddio ar gyfer pob sylw (h.y. sylwadau neu wrthwynebiadau.) Darperir canllawiau ar gyfer cwblhau'r ffurflen dros y dudalen. Mae fersiwn electronig o'r ffurflen hon ar gael yn www.merthyr.gov.uk/ReplacementLDP. **Dylai'r Cyngor dderbyn eich sylwadau erbyn Dydd Llun 21 Hydref 2019.**

Mae'n bwysig nodi fod pob sylw a wnaethpwyd yn yr ymgynghoriadau CDLI diwethaf wedi cael eu hystyried gan yr Arolygydd fel rhan o'r Archwiliad. Dylai sylwadau ar y cam hwn felly gyfeirio at y MAC arfaethedig yn unig gan nad yw'r ymgynghoriad hwn yn cynnig cyfle i ychwanegu neu i wneud sylw newydd i'r CDLI Amnewid.

Gellir gweld holl ddogfennau ymgynghorol MAC ar wefan y Cyngor www.merthyr.gov.uk/ReplacementLDP, yn y Ganolfan Ddinesig ac yn Swyddfeydd y Cyngor ym Mhentrebach ac ymhob llyfrgell leol yn ystod oriau agor arferol.

RHAN 1: MANYLION CYSWLLT

	Manylion Personol	Manylion yr Asiant (os yn berthnasol)
Teitl		
Enw Cyntaf		
Enw Olaf		
Teitl y Swydd (Ile'n berthnasol)		
Sefydliad (Ile'n berthnasol)		
Cyfeiriad Llinell 1		
Cyfeiriad Llinell 2		
Cyfeiriad Llinell 3		
Cyfeiriad Llinell 4		
Cod Post		
Rhif Ffôn		
Cyfeiriad E-bost		

Ticiwch os hoffech ohebiaeth yn y Saesneg

Mae'n well gennym gysylltu drwy e-bost. Ticiwch os byddai'n well gennych dderbyn diweddariadau yn y dyfodol drwy'r post

Nodwch y bydd pob sylw ar gael i'r cyhoedd ac ni ellir eu trin yn gyfrinachol. Bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw ar Gronfa Ddata CDLI y Cyngor a bydd ond yn cael ei defnyddio wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol.

Rhif Cyfeirnod y Cynrychiolydd * (Os yn berthnasol)

*Bydd gennych rif cynrychiolydd os ydych wedi gwneud sylwadau yn ystod camau blaenorol y CDLI neu eich bod wedi gwneud cais i gael eich cynnwys ar gronfa ddata CDLI y Cyngor. Bydd Rhif y Cynrychiolydd yn cael ei ddynodi ar ohebiaeth flaenorol gan y Cyngor. Dynodwch y rhif, os yn bosibl er mwyn cynorthwyo'r Cyngor i'ch adnabod a chofnodi'ch sylw.

DATGANIAD HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn ymroddedig i gynnal eich hawliau preifatrwydd. Byddwn ond yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol ar gyfer dibenion cyfreithiol. Os hoffech wybod rhagor am y modd yr ydym yn defnyddio'ch data personol, darllenwch ein hysbysiadau preifatrwydd sydd ar gael ar ein gwefan (www.merthyr.gov.uk/council/data-protection-and-freedom-of-information/privacy-notices/). Os oes gennych unrhyw bryderon neu yr hoffech wybod rhagor ynghylch cydymffurfiaeth diogelu data, cysylltwch â'n Swyddog diogelu Data ar 01685 725000 neu data.protection@merthyr.gov.uk.

Canllawiau:

- Cyflwynwch eich ymateb i'r Newidiadau i'r Materion sy'n Codi i'r CDLI Amnewid a dogfennau sy'n cefnogi'r Newidiadau i'r Materion sy'n Codi ar y ffurflen hon.
- Os ydych yn gwrthwynebu i'r Newidiadau i'r Materion sy'n Codi, mae'n rhaid i chi nodi pam y credwch eu bod yn gwneud y Cynllun yn anaddas. Os ydych yn argymhell newid i'r Newidiadau i'r Materion sy'n Codi, dylech ystyried y goblygiadau ar y Gwerthusiad Cynaliadwyedd (GC) ac os byddai angen unrhyw newidiadau i'r gwerthusiad. Lle y mae effeithiau cynaliadwyedd arwyddocaol i'r newidiadau arfaethedig, dylai'r sylwadau gynnwys gwybodaeth Gwerthusiad Cynaliadwyedd perthnasol.
- Lle yr ydych yn gwrthwynebu neu'n cynnig newid i'r Newidiadau i'r Materion sy'n Codi, byddai'n ddefnyddiol i chi wneud yn glir pa brawf/profion addaswydd y credwch eu bod yn eu methu. Ni fydd methiant i ddynodi prawf yn golygu na fydd eich sylwadau yn cael eu hystyried; mae darparu sylwadau yn berthnasol i'r Newidiadau i'r Materion sy'n Codi. Cyn i chi gwblhau'r ffurflen, cyfeiriwch at nodiadau canllaw'r profion addaswydd yn yr Atodiad ar ddiwedd y ffurflen hon. Mae rhestr o gwestiynau cefnogol wedi cael ei darparu er mwyn dynodi pa brofion sicrwydd allai fod fwyaf perthnasol i'ch sylwadau. Canllaw yn unig yw'r rhain ac nid yw'n angenrheidiol i chi ateb yr holl gwestiynau atodol os llwyddwyd i ddynodi'r profion addaswydd mwyaf perthnasol.
- Byddai'n ddefnyddiol, ond ddim yn angenrheidiol petai ffurflenni ar wahân yn cael eu cwblhau ar gyfer pob sylw y dymunwch eu gwneud (er enghraifft, ar gyfer pob Newid i'r Materion sy'n Codi.) Gallwch gwblhau Rhan 2, ar wahân ar gyfer pob sylw a'i atodi'n ddiogel i'r brif ffurflen.
- Pan fyddwch yn gwneud sylwadau, defnyddiwch daflennu ychwanegol, yn ôl y gofyn gan rifo pob taflen ychwanegol yn glir.
- Nodwch y bydd pob sylw ar gael i'r cyhoedd.
- Wrth nodi'ch sylwadau ar y Newidiadau i'r Materion sy'n Codi, cynhwyswch yr holl wybodaeth a'r dystiolaeth gefnogol anghenrheidiol er mwyn cefnogi'ch sylwadau.
- Lle y bydd grŵp yn rhannu safbwynt cyffredin ar sut y mae'n dymuno i'r Cynllun newid, byddai'n ddefnyddiol i'r grŵp hwnnw anfon ffurflen unigol yn cynnwys eu sylwadau yn hytrach nag i nifer fawr o unigolion anfon ffurflenni ar wahân yn ailadrodd yr un pwynt. Mewn sefyllfa o'r fath, dylai'r grŵp nodi faint o bobl mae'n ei gynrychioli a sut cafodd y ddeiseb ei hawdurdodi. Dylai cynrychiolydd y grŵp (neu'r prif ddeisebwr) gael ei ddynodi'n eglur.
- Gellir cael ffurflenni sylwadau eraill gan y Tîm CDLI ar 01685 725000 neu 727053, neu gallwch lawr-lwytho o wefan y Cyngor ar www.merthyr.gov.uk/ReplacementLDP neu lungopio'r ffurflen hon.
- Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch ymateb, peidiwch ag oedi cyn cysylltu â'r Adran Gynllunio a Chefn Gwlad a gofynnwch am gael siarad ag aelod o'r tîm CDLI ar y rhifau ffôn uchod neu e-bostiwch devplanning@merthyr.gov.uk.

Rhan 2: Eich Sylwadau ar y Newidiadau i'r Materion sy'n Codi (Defnyddiwch un adran o Ran 2 ar gyfer pob sylw yr ydych yn dymuno eu gwneud)

2a. Cyn i chi nodi'ch sylwadau'n fanwl, byddai'n ddefnyddiol gwybod os ydych yn credu, o ganlyniad i'r Newidiadau i'r Materion sy'n Codi a gynigiwyd gan y Cyngor fod y Cynllun yn addas ac yn cwrdd â gofynion gweithdrefnol. Os ydych yn teimlo fod y Cynllun yn anaddas, pa brofion addasrwydd y credwch ei fod yn eu methu? (Ticiwch) Darperir manylion pellach ar y profion addasrwydd yn yr Atodiad ar ddiwedd y ffurflen hon.

Prawf 1 <input type="checkbox"/>	Prawf 2 <input type="checkbox"/>	Prawf 3 <input type="checkbox"/>
----------------------------------	----------------------------------	----------------------------------

2b. Pa Newidiadau i'r Materion sy'n Codi yr ydych yn eu cefnogi neu yn eu gwrthwynebu? (Defnyddiwch Ran 2 ar wahân ar gyfer pob newid yr ydych yn gwneud sylw amdano)

Rhif cyfeirnod sylwadau ar y newidiadau sy'n codi (MAC):	Cymorth	Anghytuno	Sylw
	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

2c. Nodwch eich sylwadau yn y gwagle isod gan ddefnyddio taflennu ychwanegol os oes angen. Dynodwch yn glir pa Newidiadau i'r Materion sy'n Codi sy'n berthnasol i'ch sylwadau. Os tybiwch na fydd y Newidiadau i'r Materion sy'n Codi arfaethedig yn gwneud y Cynllun yn addas, nodwch eich rhesymau dros hynny'n glir a pha newidiadau pellach sydd eu hangen. Os ydych yn cynnig newid i'r Newidiadau i'r Materion sy'n Codi dylech ystyried y goblygiadau i'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd. Lle y mae effeithiau cynaliadwyedd arwyddocaol i'r newidiadau arfaethedig, dylai'r sylwadau gynnwys gwybodaeth Gwerthusiad Cynaliadwyedd perthnasol. Dynodwch yn y gwagle, isod os ydych yn cyflwyno deunydd ychwanegol i gefnogi'ch sylwadau.

Rhan 3: Beth sy'n digwydd nesaf?

Ar y cam hwn o'r broses CDLI, gallwch ond gyflwyno sylwadau'n ysgrifenedig (gelwir y rhain yn 'sylwadau ysgrifenedig.'). Gall yr Arolygydd benderfynu fod angen Gwrandawiadau pellach o ganlyniad i'r ymgynghoriad Newidiadau i'r Materion sy'n Codi. Os bydd angen Gwrandawiadau ychwanegol, dylech ddynodi ar y ffurflen os ydych yn dymuno siarad mewn unrhyw Wrandawriad/Wrandawiadau yn y dyfodol yn ogystal â darparu'ch sylwadau ysgrifenedig yn ystod yr Ymgynghoriad Newidiadau i'r Materion sy'n Codi. Dylech gadw mewn cof y bydd eich sylwadau ysgrifenedig ar y ffurflen hon yn derbyn yr un sylw gan yr Arolygydd â'r sylwadau hynny a fydd yn cael eu gwneud ar lafar mewn unrhyw Wrandawriad/Wrandawiadau yn y dyfodol.

Bydd yr holl sylwadau a fydd yn cael eu derbyn erbyn y dyddiad cau yn cael eu hanfon ymlaen, yn uniongyrchol i'r Arolygydd eu hystyried. Nodwch na fydd y Cyngor yn ymateb i'r sylwadau a fydd yn cael eu cyflwyno.

3a. Ydych chi am i'ch sylwadau gael eu hystyried fel 'sylwadau ysgrifenedig' neu ydych chi am siarad yng gwrandawiadau ychwanegol yr Archwiliad Cyhoeddus (lle yr ystyrir y bydd angen gwrandawiadau pellach)?

(Ticiwch)

Nid wyf am siarad mewn gwrandawriad cyhoeddus ac rwy'n hapus i fy sylwadau ysgrifenedig gael eu hystyried gan yr Arolygydd.

Rwyf am siarad mewn gwrandawriad cyhoeddus.

3b. Os ydych am gyfranogi mewn gwrandawriad, dynodwch isod, beth hoffech siarad amdano yn y gwrandawriad cyhoeddus (e.e. Newidiadau i'r Materion sy'n Codi x mewn cysylltiad â. . .)

3c. Os yw'r sylw hwn yn cynrychioli deiseb, dynodwch faint o bobl mae'n ei gynrychioli:

3d. Os cafodd dogfennau ychwanegol eu darparu er mwyn cefnogi'ch sylwadau, rhestrwch hwy isod:

Wedi i chi ei chwblhau, arwyddwch a nodwch y dyddiad ar eich ffurflen sylwadau:

Arwyddwyd:		Dyddiad:	
-------------------	--	-----------------	--

Peidiwch anghofio amgáu unrhyw ddogfennaeth berthnasol gyda'r ffurflen hon ac atodwch unrhyw daflennu ychwanegol a gwblhawyd yn ddiogel.

Dylid dychwelyd ffurflenni sydd wedi eu cwblhau at:

**Y Tîm CDLI
Cynllunio a Chefn Gwlad
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Uned 5
Parc Busnes Triongl
Pentrebach
Merthyr Tudful
CF48 4TQ**

Neu e-bostiwch: devplanning@merthyr.gov.uk

**Mae'n rhaid i sylwadau gael eu derbyn erbyn
canol nos, Ddydd Llun 21 Hydref 2019.**

**Ni fydd sylwadau a fydd yn cael eu derbyn ar ôl yr amser hwn yn cael
eu hystyried.**

Atodiad – Profion Addaswydd

Bydd Cynllun Datblygu Lleol Amnewid Merthyr Tudful (CDLI) 2016-2031 yn cael ei archwilio gan Arolygydd Annibynnol a fydd yn cael ei apwyntio gan Lywodraeth Cymru. Swyddogaeth yr Arolygydd fydd ystyried os yw'r Cynllun yn cyflawni gofynion gweithdrefnol ac os yw'n addas.

Yn y cyd-destun hwn, gall 'addas' gael ei ystyried i olygu 'dangos crebwyll da,' a bod modd 'ymddiried ynddo.' Mae'r cwestiynau neu'r 'profion' y bydd yr Arolygydd yn eu hystyried wrth benderfynu os yw'r Cynllun yn addas yn cael eu hesbonio yn y tabl isod. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch profion addaswydd a gofynion gweithdrefnol yn cael eu darparu yng Nghannllawiau Archwiliadau Gweithdrefnol CDLI (2015) y Gyfarwyddiaeth Gynllunio.

Os ydych yn cyflwyno gwrthwynebiad, dylech ddweud pam eich bod yn credu fod y Cynllun yn anaddas a sut dylai'r Cynllun gael ei newid er mwyn ei wneud yn addas. Lle y byddwch yn cynnig newid i'r Cynllun, byddai'n gymorth i chi egluro pa brawf/profion addaswydd y credwch y mae'r Cynllun yn eu methu a pham. Bydd hyn yn gymorth i'r Awdurdod a'r Arolygydd ddeall y problemau yr ydych yn eu codi. Os yw'ch sylw'n cyfeirio at y modd y mae'r Cynllun wedi cael ei baratoi neu'r ymgynghoriad a fu arno, mae'n debygol y bydd eich sylwadau'n cyfeirio at 'ofynion gweithdrefnol.'

Bydd methiant i ddynodi prawf yn golygu na fydd eich sylwadau'n cael eu hystyried os byddant yn cyfeirio at y Cynllun neu ei ddogfennau cefnogol. Dylech gynnwys eich holl sylwadau ar y ffurflen hon gan ddefnyddio dogfennau ategol a thystiolaeth gefnogol lle y bo angen.

Profion Addaswydd	
Prawf 1	A yw'r cynllun yn ffio? <ul style="list-style-type: none">• A yw'r cynllun yn ystyried polisi cenedlaethol?• A yw'r cynllun yn ystyried Amcanion Lles?• A yw'r cynllun yn gyson â chynlluniau rhanbarthol, strategaethau a rhaglenni cyfleustodau?• A yw'r Cynllun yn cydfynd â chynlluniau awdurdodau cymdogol?• A yw'r Cynllun yn cydfynd â strategaethau a blaenoriaethau eraill y Cyngor?
Prawf 2	A yw'r cynllun yn addas? <ul style="list-style-type: none">• A yw'n addas i'r ardal, o ystyried y dystiolaeth?• A yw'n benodol, lleol?• A yw'n ymdrin â'r problemau allweddol?• A yw'n cael ei gefnogi gan dystiolaeth wydn, gymesur a chredadwy?• A ellir arddangos y rhesymeg y tu ôl i bolisiâu'r cynllun?• A yw'n ceisio cyflawni anghenion a aseswyd a chfrannu at gyflawni datblygiad sy'n gynaliadwy?• A yw'r weledigaeth a'r strategaeth yn gadarnhaol ac yn ddigon ysbrydoledig?• A ystyriwyd syniadau amgen 'real' yn digonol?• A yw'n rhesymol a chytbwys?• A yw'n ystyrlon a chyson?• A yw'n eglur ac wedi ei ffocysu?
Prawf 3	A wnaiff y Cynllun ddarparu? <ul style="list-style-type: none">• A yw'n debygol o fod yn effeithiol?• A all gael ei weithredu?• A yw'r gefnogaeth gan ddarparwyr seilwaith perthnasol yn un ariannol ac yn un sy'n cyflawni terfynau amser perthnasol?• A fydd y datblygiad yn hyfyw?• A all y lleoliadau a ddynodwyd gael eu darparu?• A yw'r cynllun yn ddigon hyblyg?• A oes darpariaethau digonol, wrth gefn?• A yw'n cael ei fonitro'n effeithiol?